Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau

Gwasanaethau Gyrwyr

# Golwg a gyrru

## Y safon golwg gyfreithiol ar gyfer gyrru



CUSTOMER SERVICE EXCELLENCE
RHAGORIAETH MEWN GWASANAETH I GWSMERIAID
CSE
INVESTORS IN PEOPLE™
We invest in people Gold
Rydym yn buddsoddi mewn pobl Aur

INF188/1W
11/24

## Craffter golwg

Craffter golwg yw eglurder eich golwg.

**Car neu feic modur (grŵp 1)**

- rhaid ichi allu darllen plât rhif o 20 metr
- gallwch wisgo sbectol neu lensys cywirol i fodloni'r safon golwg gyfreithiol
- rhaid i'ch craffter golwg fod yn 6/12 o leiaf (degol 0.5) ar raddfa Snellen gyda'r ddau lygad ar agor, neu yn yr unig lygad gweithredol os yw'r golwg mewn un llygad yn unig (monociwlaidd)

**Lori neu fws (grŵp 2)**

- rhaid i'ch craffter golwg, fel y'i mesurir gan y siart Snellen 6 metr, fod o leiaf 6/7.5 (cyfwerth â Snellen degol 0.8) yn y llygad gwell ac o leiaf Snellen 6/60 (cyfwerth â Snellen degol 0.1) yn y gwaethaf
- gallwch fodloni'r safon hon gan ddefnyddio sbectol â phŵer cywiro heb fod yn fwy na (+) 8 dioptr, neu gyda lensys cyffwrdd. Nid oes terfyn penodol ar gyfer pŵer cywiro lensys cyffwrdd

Nid yw dyfeisiau bioptig (telesgop) yn dderbyniol i'w defnyddio wrth yrru ym Mhrydain Fawr.

## Maes golwg

Eich maes golwg yw'r maes y gallwch ei weld wrth edrych yn syth ymlaen.

**Car neu feic modur (grŵp 1)**
Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i yrwyr ceir neu feiciau modur (grŵp 1) fel arfer fod â maes golwg gyda lled o 120 gradd o leiaf ac o leiaf 50 gradd ar y naill ochr a'r llall wrth osod. Yn ogystal, mae cyngor meddygol arbenigol i DVLA yn argymell na ddylai fod 'scotomata' sylweddol (ardaloedd colli maes) yn gorgyffwrdd o fewn 20 gradd o osod.

Os ydych wedi colli'ch golwg yn llwyr mewn un llygad, ni ddylai fod gennych unrhyw broblem gyda'r maes golwg yn eich llygad arall.

**Lori neu fws (grŵp 2)**

Rhaid bod gennych faes golwg llorweddol di-dor o 160 gradd o leiaf ag estyniad o leiaf 70 gradd i'r chwith ac i'r dde a 30 gradd i fyny ac i lawr. Ni ddylai unrhyw ddiffygion fod yn bresennol o fewn radiws o'r 30 gradd canolog.

## Golwg mewn un llygad yn unig – Monociwlaidd

**Car neu feic modur (grŵp 1)**
Os oes gennych olwg mewn un llygad yn unig (monociwlaidd), efallai y byddwch yn dal i allu bodloni'r safonau golwg cyfreithiol ar gyfer gyrru.

Gall gymryd 3 mis neu fwy ichi addasu i yrru gyda golwg mewn un llygad. Yn benodol, efallai y bydd eich gallu i farnu pellteroedd yn cael ei effeithio ac efallai na fyddwch mor ymwybodol o wrthrychau o bob ochr ichi.

Ni ddylech yrru nes eich bod wedi cael gwybod gan eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol neu arbenigwr golwg eich bod wedi addasu'n llwyr i olwg ag un llygad.

Yn ogystal, ni ddylech ailddechrau gyrru oni bai eich bod yn gallu bodloni'r safonau craffter golwg a maes golwg.

**Lori neu fws (grŵp 2)**

Fel arfer ni all gyrwyr golwg monociwlaidd sydd â golwg mewn un llygad yn unig neu mae eu golwg mewn un llygad wedi gwaethygu i graffter wedi'i gywiro o lai na 3/60 (cyfwerth â Snellen degol 0.05) gael eu trwyddedu i yrru cerbydau grŵp 2.

Yr eithriadau yw:

1. Roeddech wedi'ch trwyddedu i yrru cerbydau grŵp 2 cyn 1 Ebrill 1991 ac roedd y Comisiynydd Traffig a roddodd y drwydded yn gwybod mai dim ond mewn un llygad oedd gennych eich golwg cyn 1 Ionawr 1991, mae'n rhaid bod gennych:

   - graffter golwg o 6/12 o leiaf (cyfwerth â Snellen degol 0.5) os oedd gennych drwydded Grŵp 2 ar 1 Ebrill 1983

   **neu**

   - 6/9 (cyfwerth â Snellen degol 0.6) os cawsoch eich trwyddedu ar ôl y dyddiad hwnnw.

   Bydd DVLA yn anfon tystysgrif profiad atoch ichi ei llenwi ar ôl iddynt gael cais dilys.

   Ni allwch wneud cais am hawliau categori cerbyd newydd – dim ond y rhai a oedd gennych yn flaenorol.

2. Rydych yn gwneud cais i adnewyddu hawl i yrru categori C1 (cerbydau rhwng 3500kg a 7500kg) a roddwyd gyda'ch trwydded grŵp 1 (car neu feic modur) os oeddech wedi pasio prawf gyrru car cyn 1 Ionawr 1997.

## Mae cyflwr iechyd yn effeithio ar un llygad

Os oes gennych gyflwr iechyd sy’n effeithio ar un llygad yn unig ar hyn o bryd, efallai y byddwch yn dal i allu bodloni’r safon golwg gyfreithiol ar gyfer gyrru. Fodd bynnag, os bydd eich cyflwr iechyd yn effeithio ar y ddau lygad, rhaid ichi roi gwybod inni. Gallwch wneud hyn drwy ymweld â:
**www.gov.uk/driving-medical-conditions.**

Os nad ydych yn cyrraedd y safon golwg gyfreithiol ar gyfer gyrru, ni allwch yrru ar ffordd gyhoeddus. Os ydych yn gyrru ar ffordd gyhoeddus, rydych yn euog o drosedd. Hefyd, os yw’r heddlu’n amau nad oes gennych y safon golwg berthnasol, gallant wneud ichi gymryd y ‘prawf plât rhif’. Os na allwch ddarllen y plât rhif, efallai y bydd eich trwydded yrru yn cael ei diddymu (ei chanslo) a gallech gael eich erlyn.

**Os oes gennych unrhyw amheuon ynghylch a allwch fodloni’r safon golwg gyfreithiol, gofynnwch am gyngor gan eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol neu arbenigwr llygaid.**

(Mae arbenigwr golwg yn cynnwys Offthalmolegydd Ymgynghorol, Optometrydd, Optegydd.)

Dylech wirio’n rheolaidd a ydych yn bodloni’r safon hon. Bydd profion golwg rheolaidd yn eich sicrhau eich bod yn dal i fodloni’r safonau golwg cyfreithiol ar gyfer gyrru.

## Cysylltu â ni

Dylech roi eich enw a'ch cyfeiriad inni, neu'ch rhif gyrrwr pryd bynnag y byddwch yn cysylltu â ni.

Os bydd eich meddyg neu arbenigwr llygaid yn dweud wrthych am roi gwybod inni am eich anhawster golwg, ewch i **www.gov.uk/health-conditions-and-driving** am wybodaeth ynghylch sut i roi gwybod inni.

**Ffôn:**
0300 790 6806

**Ysgrifennu:**
Grŵp Meddygol Gyrwyr,
DVLA Abertawe
SA99 1DX

**Pryd oedd y tro diwethaf ichi gael prawf llygaid?**

Os ydych yn gyrru, sicrhewch eich bod yn cael un o leiaf bob 2 flynedd.

**www.gov.uk/rheolau-golwg-ar-gyfer-gyrru**